## H. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

**Taflen Cofnodi Gwaith Sgrinio yn seiliedig ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Cwblhawyd gan: Tîm y Bil Diogelwch Adeiladau, Llywodraeth Cymru

### Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) – Nodau ac Amcanion

Bydd y Bil yn cyflwyno cyfundrefn diogelwch adeiladau newydd sy'n ymdrin â'r modd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu meddiannu a'u rheoli yng Nghymru.

### Y Dystiolaeth a Ystyriwyd

Mae marwolaeth ac anafiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau diogelwch adeiladau preswyl yn brin iawn. Mae llai na 0.1% o farwolaethau yng Nghymru yn cael eu hachosi gan danau mewn eiddo preswyl[1], o'u cymharu â 0.3% a achoswyd gan wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd[2]. Prif achosion marwolaeth yng Nghymru a Lloegr yn 2023 oedd dementia a chlefyd Alzheimer (11.5% o farwolaethau) a chlefyd isgemia'r galon (10% o farwolaethau)[3]. Fodd bynnag, gall yr effeithiau fod yn ddinistriol pan fydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd.

Er mwyn i'r Bil gynrychioli'r atebion gorau posibl, mwyaf ymarferol, i bob un o'r materion a nodwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n helaeth gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni.

Agorodd yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru ym mis Ionawr 2021. Roedd yn cynnig diwygiadau cynhwysfawr i ddeddfwriaeth a oedd yn mynd llawer ymhellach na'r system bresennol ar gyfer diogelwch adeiladau yng Nghymru. Roedd yn canolbwyntio ar newid deddfwriaethol ar draws cylch bywyd adeiladau amlfeddiannaeth: o'r cam dylunio, hyd at adeiladu ac i'r cam meddiannu; yn ogystal â nodi dyheadau ar gyfer newid diwylliannol yn y ffordd y caiff adeiladau eu dylunio, eu hadeiladu a'u rheoli.

Pan ddaeth i ben ym mis Ebrill 2021, daeth 91 o ymatebion i law gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, cyrff proffesiynol, asiantiaid rheoli, rhydd-ddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd. Mae'r ymatebion

---

[1] Roedd 14 o anafusion angheuol yn 2023-24 Anafusion yn ôl lleoliad manwl a blwyddyn ariannol o 36,054 o farwolaethau yng Nghymru yn 2023 Ystadegau cryno cofrestru marwolaethau, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[2] Roedd 98 wedi'u lladd yn 2023 Anafusion yn ôl chwarter, blwyddyn a difrifoldeb o 36,054 o farwolaethau yng Nghymru yn 2023 Ystadegau cryno cofrestru marwolaethau, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[3] Ystadegau cryno cofrestru marwolaethau, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

hyn wedi llywio gwaith meddwl a datblygu polisi. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r ymgynghoriad ar 14 Rhagfyr 2021.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys lesddeiliaid a thenantiaid, grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig penodol, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub a'r diwydiant tai.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru hefyd ymchwil gan gynnwys:

- ymchwil heb ei chyhoeddi gyda lesddeiliaid ethnig leiafrifol a lesddeiliaid anabl;
- ymchwil ymhlith preswylwyr o bob math ac o bob grŵp deiliadaeth, sy'n byw mewn adeiladau a ddiffinnir fel rhai o fewn cwmpas y gyfundrefn ddiogelwch adeiladau newydd[4]; ac
- adolygiad o'r dystiolaeth ar ddylanwadau dynol mewn tanau mewn anheddau, yn benodol mewn adeiladau amlfeddiannaeth[5].

**Grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt**

Bwriad y ddeddfwriaeth yw gwella diogelwch i bobl mewn adeiladau, neu o'u hamgylch, sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn newydd. Bydd yr effaith fwyaf ar breswylwyr adeiladau sydd o fewn y cwmpas. Mae pob math o bobl yn byw mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas, ond o'u cymharu ag aelwydydd ym mhob annedd yng Nghymru, mae aelwydydd adeiladau sydd o fewn y cwmpas yn:

- Fwy tebygol o fod yn aelwydydd un person
- Fwy tebygol o fod yn aelwydydd un person hŷn
- Llai tebygol o gynnwys 2 neu fwy o oedolion a phlentyn/plant
- Fwy tebygol o fod yn anabl
- Fwy tebygol o fod yn Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol
- Llai tebygol o fod mewn cyflogaeth
- Fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar
- Fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol

Ceir rhagor o fanylion yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Atodiad B.

Bydd holl breswylwyr adeiladau sydd o fewn y cwmpas yn elwa ar welliannau i ddiogelwch adeiladau gyda'r budd mwyaf i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl, gan gynnwys

- Pobl hŷn
- Pobl anabl

---

[4] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

[5] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

- Y rhai sy'n byw ar aelwydydd rhiant sengl

| **Sgrinio** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ffyrdd o fyw** | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Grŵp Agored i Niwed yr Effeithir arno** | **Y rhesymeg** |
| Dim effaith | | | | |
| **Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd – Amherthnasol** | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Grŵp Agored i Niwed yr Effeithir arno** | **Y rhesymeg** |
| | Cymedrol | | Holl breswylwyr adeiladau sydd o fewn y cwmpas | Nod y Bil yw gwella diogelwch adeiladau preswyl amlfeddiannaeth. Felly, mae'r rhai sy'n byw mewn adeiladau o fewn y cwmpas yn llai tebygol o wynebu'r posibilrwydd o orfod adleoli o'u cymuned oherwydd digwyddiad diogelwch adeiladau. Byddai systemau cymorth cymdeithasol yn cael eu cynnal. |
| **Llesiant Meddyliol** | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Grŵp Agored i Niwed yr Effeithir Arno** | **Y rhesymeg** |
| Iechyd Meddwl | Cymedrol | | Holl breswylwyr adeiladau sydd o fewn y cwmpas | Nod y Bil yw gwella llesiant preswylwyr drwy roi sicrwydd i breswylwyr bod risgiau i'w diogelwch a'u cartrefi wedi cael eu lleihau. Byddai hyn yn lliniaru effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a llesiant sy'n deillio o unrhyw ansicrwydd a phryderon presennol o ran diogelwch cartrefi pobl. Disgwylir i lai o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | risg/canfyddiad o risg ddeillio o effaith gronnol y canlynol:<br>• asesiadau risg tân ac asesiadau risg strwythurol amlach,<br>• darparu gwybodaeth i breswylwyr i helpu i ddatblygu cysylltiadau mwy tryloyw a chydweithredol dros ddiogelwch adeiladau,<br>• system fwy effeithiol o ymdrin â chwynion, lle mae gan breswylwyr fwy o hyder bod materion yn cael eu codi a'u datrys yn gyflymach,<br>• cyflwyno awdurdodau diogelwch adeiladau, a fydd yn rhoi mwy o hyder i breswylwyr bod camau penodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y risgiau tân a diogelwch strwythurol yn eu cartrefi yn cael eu lleihau.<br><br>Mae gwaith ymchwil sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y gallai effaith iechyd meddwl cymunedol tanau bach fod yn sylweddol, ond nid oes digon o sylfaen dystiolaeth eto i alluogi amcangyfrif dibynadwy o werth ariannol unrhyw ostyngiad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amodau byw ac amgylcheddol sy’n effeithio ar iechyd** | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Grwpiau Agored i Niwed yr Effeithir Arnynt** | **Y rhesymeg** |
| Amgylchedd ffisegol - tai | Sylweddol | | Mae pob math o bobl yn byw mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas. Mae'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddigwyddiadau diogelwch adeiladau yn cynnwys:<br>• Pobl hŷn<br>• Pobl anabl<br>• Y rhai sy'n byw ar aelwydydd rhiant sengl | Nod y Bil yw gwella diogelwch adeiladau preswyl amlfeddiannaeth i'r holl breswylwyr. Bydd y system reoleiddio newydd yn sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n atebol am asesu a rheoli risgiau diogelwch adeiladau mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas. Bydd y person hwnnw hefyd yn gyfrifol am ymgysylltu'n weithredol â phreswylwyr ar faterion diogelwch adeiladau.<br>Nod y Bil yw newid y diwylliant sy'n ymwneud â chwynion, annog deialog, cyfathrebu ac ymgysylltu, rhoi llais i breswylwyr a galluogi system gwyno i breswylwyr godi unrhyw bryderon diogelwch gyda'r awdurdod diogelwch adeiladau. Dylai hyn alluogi preswylwyr i fod yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel yn eu cartref. |
| **Amodau Economaidd sy’n Effeithio ar Iechyd** | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Grwpiau Agored i Niwed yr Effeithir Arnynt** | **Y rhesymeg** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bydd y gyfundrefn newydd yn dod â chostau i breswylwyr | Cymedrol | Cymedrol/ isel iawn | Mae'r costau i breswylwyr yn debygol o gael mwy o effaith ar y rhai sy'n wynebu'r risg uchaf o dlodi, gan gynnwys:<br>• Rhai aelwydydd hŷn, yn enwedig:<br>  • Pobl hŷn sy'n rhentu eu cartrefi, yn breifat neu drwy'r sector cymdeithasol<br>  • Pobl Du ac Asiaidd hŷn<br>  • Menywod sengl hŷn<br>• Aelwydydd ifanc (16-24)<br>• Aelwydydd â phlant, yn enwedig:<br>  • Aelwydydd rhiant sengl<br>  • Aelwydydd sydd â 3 neu fwy o blant<br>  • Aelwydydd du neu Asiaidd<br>  • Aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi sydd wedi'u rhentu'n breifat<br>• Aelwydydd anabl, yn enwedig y rhai sydd: | **Negyddol**<br>Bydd y gyfundrefn newydd yn dod â chostau i breswylwyr. Disgwylir i'r costau fod yn fwy i breswylwyr adeiladau categori 1 (y rhai sy'n 18m ac uwch), nag i breswylwyr adeiladau categori 2 (y rhai o dan 18m).<br><br>Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol i breswylwyr os ydynt yn torri dyletswyddau i beidio ag ymyrryd â dyfeisiau diogelwch adeiladau.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am y costau i breswylwyr wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mantais yw bod disgwyl i'r gyfundrefn newydd roi mwy o hyder i ddarparwyr morgeisi ac yswiriant bod adeiladau sydd o fewn y cwmpas yn cynrychioli sicrwydd cyfochrog digonol ar gyfer benthyciadau. Yn enwedig ar gyfer adeiladau 18m ac uwch, mae disgwyl i'r gyfundrefn newydd wella hyder i fenthycwyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • yn byw ar aelwydydd gydag oedolion a phlant anabl, neu<br>• ag amhariad meddyliol tymor hir sy'n cyfyngu arnynt<br>• Aelwydydd du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol<br>• Aelwydydd incwm isel | sy'n benthyca yn erbyn fflatiau nad ydynt yn gallu gwneud ar hyn o bryd. Gan gynyddu, felly, argaeledd a gwerth y cynhyrchion hyn i lesddeiliaid a phreswylwyr. Yn yr un modd, dylai'r gyfundrefn newydd helpu i leihau'r duedd i yswirwyr ofyn am bremiymau uwch ar gyfer yswiriant adeiladau oherwydd yr anawsterau y mae yswirwyr yn eu hwynebu wrth wahaniaethu rhwng adeiladau diogel ac anniogel. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ar gostau yswiriant adeiladau wedi bod yn gymysg hyd yma – tra bod tystiolaeth bod cyfraddau yswiriant wedi cynyddu pan nodir risgiau; hefyd bod y broses o waith cyweirio yn cael ei hystyried fel un sy'n cyflwyno risgiau tymor byr ychwanegol[6], ond mae tystiolaeth llai eglur bod cyfraddau'n lleihau ar ôl gwaith cyweirio. |

[6] Report on insurance for multi-occupancy buildings

| **Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd** | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Grwpiau Agored i Niwed yr Effeithir Arnynt** | **Y rhesymeg** |
|---|---|---|---|---|
| Dim effaith | | | | |
| **Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd** | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Grwpiau Agored i Niwed yr Effeithir Arnynt** | **Y rhesymeg** |
| Dim effaith | | | | |

**Crynodeb o'r Effeithiau Iechyd Posibl a Nodwyd**

Effeithiau Cadarnhaol

Bwriad y Bil yw gwella diogelwch adeiladau preswyl amlfeddiannaeth a lleihau'r risg o ddigwyddiadau diogelwch adeiladau yn digwydd. Bydd hyn o fudd i holl breswylwyr adeiladau sydd o fewn y cwmpas, ond yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddigwyddiadau diogelwch adeiladau, gan gynnwys:

- Pobl hŷn
- Pobl anabl
- Y rhai sy'n byw ar aelwydydd rhiant sengl

Bydd ymgysylltu â phreswylwyr wrth wraidd y gyfundrefn newydd. Bydd y gyfundrefn yn grymuso preswylwyr drwy roi hawliau gwell iddynt, llwybrau clir ar gyfer codi pryderon a gwneud cwynion a llais cryfach mewn materion sy'n effeithio ar eu cartrefi. Dylai hyn helpu preswylwyr i fod yn fwy diogel a theimlo'n fwy diogel.

Effeithiau Negyddol

Bydd y gyfundrefn newydd yn dod â chostau i breswylwyr a bydd y rhain yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai sy'n wynebu'r risg uchaf o dlodi.

Effeithiau ar Grwpiau agored i niwed

Bydd y rhai sydd fwyaf agored i ddigwyddiadau diogelwch adeiladau o bosibl yn profi effaith fwy cadarnhaol o ganlyniad i well diogelwch adeiladau.

Bydd y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi o bosibl yn profi effaith fwy negyddol o gost y gyfundrefn newydd.

**A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i gyfiawnhau asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd?**

Nid ydym yn o'r farn bod angen asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd.

**A oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol o ganlyniad i'r broses asesu'r effaith ar iechyd hon?**

Nac oes, byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a byddwn yn ystyried yr effeithiau ar iechyd wrth roi'r gyfundrefn ar waith. Byddwn yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd pellach os bydd angen i gyd-fynd â datblygu is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

**A oes asesiadau effaith eraill wedi'u cynnal neu a fydd asesiadau eraill yn cael eu cynnal?**

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Iechyd hwn yn rhan o Asesiad Effaith Integredig llawn ar gyfer y Bil.